



Crynodeb o'r Cod Ymarfer a'r Rheoliadau ar gyfer Rhan 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



Mae'r Ddeddf hon am ddyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru.



Mae fersiwn Hawdd ei Darllen o'r Ddeddf ar wefan Llywodraeth Cymru.



Mae angen i bawb yng Nghymru wybod sut i wneud beth mae'r Ddeddf yn dweud.



Mae hyn yn golygu bod angen **Rheoliadau** a **Chod Ymarfer** ar y Ddeddf.

Rheolau yw'r **Rheoliadau**. Mae'r rheolau'n dweud beth sy'n **rhaid** gwneud.



Mae'r **Cod Ymarfer** yn disgrifio sut beth fydd gofal cymdeithasol. Mae rhai pethau yn y **Cod Ymarfer** yn gyngor da. Mae rhai pethau yn y **Cod Ymarfer** yn bethau y mae'n **rhaid** eu gwneud.



Mae'r Ddeddf yn dechrau yn Ebrill 2016.



Ysgrifennu'r Rheoliadau a'r Cod Ymarfer



Rydyn ni wedi gofyn i lawer o bobl beth ddylen ni ei roi yn y **Rheoliadau** a'r **Cod Ymarfer**.



Rydyn ni wedi ysgrifennu peth o'r **Rheoliadau** a'r **Cod Ymarfer**.

Nawr rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi'n meddwl.

Llun

2 Chwefror

2015



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'n rhaid i chi ddweud wrthon ni beth ydych chi'n meddwl erbyn 2 Chwefror 2015.

Byddwn ni'n edrych ar y pethau rydych yn dweud wrthon ni.




Yna byddwn yn mynd â'r **Rheoliadau** i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2015.



Byddwn yn gofyn iddyn nhw gytuno i'r **Rheoliadau**.



Yna bydd gan bawb tan Ebrill 2016 i baratoi i wneud beth mae'r **Rheoliadau** yn dweud.



Rydyn ni dal yn ysgrifennu peth o'r **Rheoliadau** a'r **Cod Ymarfer** am rannau eraill o'r Ddeddf.



Byddwn yn gofyn i chi am y rhain ym Mai 2015.



Rydyn ni wedi ysgrifennu **Rheoliadau** a **Chod Ymarfer**.
Mae 5 pennod yn y **Cod Ymarfer**:



- Mae Pennod 1 am Lesiant
(adrannau 5, 6, 7 ac 8 o'r Ddeddf)



- Mae Pennod 2 am Gael gwybod beth sydd ei
angen ar bobl leol (gweler adran 14 o'r Ddeddf)



- Mae Pennod 3 am wasanaethau Ataliol



- Mae Pennod 4 am fusnesau Cymdeithasol
(adran 16 o'r Ddeddf)



- Mae Pennod 5 am Wybodaeth, cyngor a
chymorth (adran 17 o'r Ddeddf)



Llesiant



Mae **dyletswydd** newydd yn y Ddeddf.



Mae'n **rhaid** i unrhyw un sy'n gwneud pethau yn y Ddeddf hon wneud pethau y maen nhw'n meddwl bydd yn gwneud pobl yn fwy iach a hapus.



Mae'n **rhaid** iddyn nhw wneud hyn os bydd angen gofal a chefnogaeth ar rywun, neu os yw rhywun yn ofalwr sydd angen cefnogaeth.



Dydyn ni ddim yn gwneud unrhyw **Reoliadau**.



Rydyn ni wedi ysgrifennu ein syniadau am sut i wneud hyn.

Gallwch weld ein syniadau ym Mhennod 1 y Cod Ymarfer.



Mae'r **Cod Ymarfer** i'r gwasanaethau cymdeithasol. Ond bydd yn effeithio ar y GIG (NHS) a phawb arall sy'n darparu gwasanaethau. Bydd yn effeithio ar bobl sydd angen gwasanaethau hefyd.



Mae'n **rhaid** i Weinidogion Cymru ysgrifennu i lawr beth yw ystyr "mwy iach a hapus". Yr enw ar hyn yw datganiad lles. Mae'n rhaid iddyn nhw wneud hyn erbyn Ebrill 2016.



Rydyn ni'n gweithio gyda phobl i gytuno beth i'w roi yn y datganiad llesiant.



Cael gwybod beth sydd ei angen ar bobl lleol




Mae'r Ddeddf yn dweud bod rhaid i gynghorau lleol a'r GIG (NHS) lleol gael gwybod beth sydd ei angen ar bobl lleol. Mae'n rhaid iddyn nhw gael gwybod am anghenion gofal a chefnogaeth. Yna mae'n rhaid iddyn nhw ei ysgrifennu i lawr mewn adroddiad.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gall Gweinidogion Cymru wneud rheolau am hyn.
Bydd y rheolau yn dweud:



- Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gael copi o bob adroddiad lleol



- Mae'n rhaid i gynghorau lleol a'r GIG (NHS) lleol wneud hyn bob 5 mlynedd.



- Mae'n rhaid i gynghorau lleol a'r GIG (NHS) lleol feddwl am y datganiad llesiant pan maen nhw'n ysgrifennu adroddiad



- Mae'n rhaid i bobl leol, gofalwyr, mudiadau gwirfoddol a chwmnïau preifat roi eu barn.



Yn ogystal â rheolau, rydyn ni wedi ysgrifennu am sut i gael gwybod beth sydd angen ar bobl leol. Mae hyn ym Mhennod 2 y Cod Ymarfer.



Y rheswm dros gael gwybod beth sydd ei angen ar bobl leol yw i'r cyngor lleol a'r GIG (NHS) lleol allu cynllunio'n dda.



Byddwn ni'n gwneud rheolau ar sut mae'n **rhaid** i'r cyngor lleol a'r GIG (NHS) lleol weithio gyda'i gilydd i gael gwybod beth sydd ei angen ar bobl leol.



Gwasanaethau ataliol



Mae'n **rhaid** i wasanaethau cymdeithasol ddarparu gwasanaethau sy'n helpu pobl pan fydd angen ychydig bach o help arnyn nhw, i stopio'u hanghenion rhag mynd yn fwy.



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol a'r GIG (NHS) lleol weithio allan



- pa wasanaethau sydd angen



- faint o bobl sydd angen y gwasanaethau



Busnesau cymdeithasol



Mae'n rhaid i gynghorau lleol **hyrwyddo** gwasanaethau fel rhain:



- mudiadau sy'n cael eu rhedeg gan bobl sydd ddim yn cadw elw iddyn nhw'u hunain



- mudiadau lle mae pawb yn gyfartal



- gwasanaethau sy'n cynnwys pobl wrth ddylunio a rhedeg y gwasanaethau



- gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan fudiadau fel elusennau a mudiadau gwirfoddol



Rydyn ni'n credu bod y gwasanaethau hyn yn rhoi mwy o lais a mwy o reolaeth i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau.



Rydyn ni wedi ysgrifennu **Rheoliadau**.
Mae'r **Rheoliadau** yn dweud:



- Pa weithgareddau sy'n cael eu cynnwys



- Sut i benderfynu a yw rhywbeth yn:



- Fenter gymdeithasol
- Menter gydweithredol
- Mudiad Trydydd Sector; a



- Sut i benderfynu pa bobl sy'n cael eu cynnwys



Rydyn ni wedi ysgrifennu Pennod 4 o'r **Cod Ymarfer**.
Bydd y bennod am



- Gyd-gynhyrchu. Mae hyn yn golygu y bydd pobl sy'n rhedeg gwasanaethau ac aelodau'r cyhoedd yn gweithio gyda'i gilydd.



- Mesur llwyddiant. Mae hyn yn golygu gweithio allan beth sy'n bwysig, ac os yw'n digwydd.



- Creu'r amgylchedd iawn. Mae hyn yn golygu newid sut rydyn ni'n meddwl a sut rydyn ni'n gwneud pethau.



- Tendre a chaffael. Mae hyn yn golygu dewis a phrynu gwasanaethau.




- Cydweithio. Mae hyn yn golygu mudiadau a gwasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd.



Gwybodaeth, cyngor a chymorth



Mae'r Ddeddf yn dweud bod **rhaid** i gynghorau lleol gael gwasanaeth sy'n gwneud yn siŵr bod



- pobl yn cael gwybodaeth a chynghor am ofal a chefnogaeth



- pobl yn cael help i gael gofal a chefnogaeth



Mae'r Ddeddf yn dweud bod rhaid i'r gwasanaeth ddweud wrth bobl:



- Sut mae gofal a chefnogaeth yn gweithio



- Gofal a chefnogaeth y gall pobl leol eu defnyddio




- Sut i gael gofal a chefnogaeth



- Beth i wneud os ydych chi'n credu nad ydych chi neu rywun arall yn ddiogel



Bydd y gwasanaeth hwn yn bwysig iawn. Bydd yn:



- y lle cyntaf i bobl fynd i gael gwybodaeth a chyngor



- bydd yn hawdd i bawb ei ddefnyddio



- bydd yn rhan o weithio allan pa help sydd angen ar rywun



- bydd yn helpu pobl i gael atebion



Bydd y gwasanaeth hwn yn golygu bod mwy o bobl yn cael help yn gyflym. Mae hyn yn golygu bydd angen cynllun gofal a chefnogaeth ar lai o bobl.



Ni fydd unrhyw **Reoliadau** am hyn.



Bydd Pennod 5 y **Cod Ymarfer** yn dweud sut beth fydd y gwasanaeth:



- hawdd i bawb ei ddefnyddio



- yr un gwasanaeth da i Gymru i gyd



- staff sy'n gwneud eu gwaith yn dda



- gall cyngorau lleol redeg gwasanaeth gyda'i gilydd



- mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddweud wrth bobl am iechyd, cwmnïau preifat, busnesau cymdeithasol, elusennau a grwpiau cymunedol



- cael gwybod beth sydd angen ar bob person, a chadw gwybodaeth y person yna'n ddiogel



- casglu gwybodaeth am sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio. Bydd rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth i wirio bod y gwasanaeth yn dda ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol.